# Crynodeb o'r Map Ffordd Strategaeth Ddata (Cyfieithiad Cymraeg)

## Cyflwyniad

1. Sefydlwyd Swyddfa'r Farchnad Fewnol (OIM) o fewn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) i gyflawni swyddogaethau ac arfer pwerau a roddwyd i'r CMA o dan Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020.

2. Mae'r OIM yn darparu cyngor annibynnol, gwaith monitro ac adroddiadau i gefnogi gweithrediad effeithiol masnach rhwng gwledydd y DU (marchnad fewnol y DU), wedi i bwerau gael eu dychwelyd o'r Undeb Ewropeaidd i Lywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig.

3. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'r OIM, yn naturiol, yn defnyddio ystod eang o ddata a gwybodaeth - o ddata meintiol ar fasnach rhwng gwledydd y DU ar lefel genedlaethol (sef prif ffocws y map ffordd), i wybodaeth ansoddol ynghylch ymagweddau busnesau a rheoliadau newydd, a data manwl iawn ar y ffordd mae masnach rhwng gwledydd y DU yn gweithredu mewn sector penodol a sut y gallai busnesau yn y sector hwnnw ymateb i newid rheoleiddiol yn un neu ragor o'r gwledydd.

## Cefndir

4. Mae Map Ffordd Strategaeth Ddata yr OIM yn pennu'r prosiectau sydd ar y gweill gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), Y Llywodraethau Datganoledig, adrannau yn Llywodraeth y DU ac academyddion o bob cwr o'r DU, yn ogystal â'r OIM, a allai wella ein dealltwriaeth gyfunol o'r ffordd mae marchnad fewnol y DU yn gweithredu.

5. Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd yr OIM yr adroddiad Trosolwg o Farchnad Fewnol y DU. Roedd hwn yn amlygu cyfyngiadau o ran y data sydd ar gael ar hyn o bryd, gan gynnwys diffyg data ar fasnach rhwng Lloegr a gweddill y DU, gwahaniaethau methodolegol sy'n effeithio ar gymharedd y data a gesglir gan wahanol wledydd, a bylchau amser rhwng casglu data a chyhoeddi.

6. Yn ogystal â hwyluso gwaith yr OIM, byddai disgwyl i ddata mwy cyson, rheolaidd a chynhwysfawr ar fasnach o fewn y DU arwain at fanteision ehangach. Er enghraifft, mae llywodraethau wedi dweud wrth yr OIM y byddent yn gwerthfawrogi dealltwriaeth fanylach o'r cyd-destun masnach y bydd polisïau'n gweithredu ynddo. Yn ogystal, mae cymdeithasau masnach wedi awgrymu y byddai gwell darlun o'r ffordd y mae nwyddau a gwasanaethau sy'n berthnasol i'w sector yn symud ar draws ffiniau mewnol yn gallu helpu i sicrhau penderfyniadau mwy gwybodus gan y busnesau sy'n aelodau ohonynt.

## Mentrau ar gyfer gwella data masnach

7. Drwy ddwyn mentrau perthnasol ynghyd drwy'r map ffordd, bwriad yr OIM yw hyrwyddo casglu a chyhoeddi data cyson a chynhwysfawr ar fasnach o fewn y DU a bod yn gatalydd ar gyfer gwelliant yn y sylfaen dystiolaeth.

8. Mae'r prif fentrau hyd yma wedi'u nodi isod. Mae'r prosiectau'n rhai cydgysylltiol, gydag allbwn pob prosiect yn bwydo i mewn i brosiectau olynol.

   a) I'w cwblhau yn 2023
      - Mae'r ONS a Sefydliad Alan Turing yn cydweithio ar set ddata o daliadau cwmni-i-gwmni, sy'n seiliedig ar ddata systemau talu, yn dangos taliadau rhwng busnesau mewn gwahanol sectorau yn y DU a gwahanol rannau o'r DU.
      - Mae'r ONS, ar y cyd â'r Llywodraethau Datganoledig, yn treialu technegau methodolegol i hwyluso'r gwaith o gymharu'r data masnach o fewn y DU ar gyfer pob gwlad. Maent yn disgwyl y byddant yn cyhoeddi datganiad methodolegol arbrofol yn disgrifio'r gwaith hwn.

   b) I'w gwblhau yn 2024
      - Mae'r ONS yn disgwyl y bydd yn cyhoeddi amcangyfrifon arbrofol o fasnach ryngranbarthol ar gyfer pedair gwlad y DU.

   c) I'w gwblhau yn 2024-2025
      - Mae'r Adran Masnach Ryngwladol (DIT) a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), ar y cyd â'r ONS a'r Llywodraethau Datganoledig, yn disgwyl y byddant yn datblygu tablau cyflenwi-defnyddio is-genedlaethol, sy'n dangos sut mae nwyddau a gwasanaethau yn cael eu cyflenwi a'u defnyddio mewn economi. Ar gyfer pob rhanbarth o'r DU, bydd y tablau'n dangos masnach gyda gweddill y DU a masnach gyda marchnadoedd rhyngwladol. Bydd y tablau cyflenwi-defnyddio is-genedlaethol hyn yn cael eu hymgorffori yn fframwaith Masnach mewn Gwerth Ychwanegol yr OECD, i'n galluogi i ddeall natur cyfranogiad rhanbarthau'r DU mewn cadwyni gwerth byd-eang.

9. Yn ogystal, mae ystadegwyr ym mhob un o'r gwledydd yn bwrw ymlaen â gwaith i sicrhau bod eu hystadegau masnach yn fwy cadarn ac yn haws i gael gafael arnynt.

**Camau Nesaf**

10. Bydd yr OIM yn adolygu'r map ffordd bob chwe mis. Byddwn yn darparu adroddiadau blynyddol ar gynnydd y prosiectau y cyfeirir atynt yn y map ffordd ac unrhyw brosiectau newydd sy'n ymwneud â data a allai daflu goleuni ar weithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU.

11. Byddwn yn cyflawni a chomisiynu ymchwil pellach i gefnogi swyddogaethau'r OIM, ac rydym yn barod i gydweithio â phartneriaid ar waith ymchwil sydd o ddiddordeb cyffredin.

12. Byddwn yn parhau i fod yn gwsmer a hyrwyddwr ar gyfer data masnach o fewn y DU, ac mae'n bosib y byddwn yn ehangu cwmpas y Strategaeth Ddata i gynnwys data arall sy'n berthnasol i farchnad fewnol y DU. Byddwn yn chwilio

am gyfleoedd i ddwyn rhanddeiliaid ynghyd i amlygu cysylltiadau a thrafod meysydd sydd o ddiddordeb cyffredin.

13. Wrth i ddata newydd ddod ar gael, byddwn yn ei ddefnyddio yn ein hadroddiad blynyddol statudol ac allbynnau eraill, gan sicrhau bod gwelliannau yn y sylfaen dystiolaeth yn cael eu hystyried pan fydd yr OIM yn asesu pa mor effeithiol mae marchnad fewnol y DU yn gweithredu.